# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2024

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(09:45-10:00)

## Cyfarfod cyhoeddus

(10:00-12:05)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10:00)

## 2 Papurau i'w nodi

(10:00)

### 2.1 Y diwydiant twristiaeth

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 11 Tachwedd 2024

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.2 Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – adborth gan randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru**

(Tudalennau 3 - 4)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 11 Tachwedd 2024

**2.3 Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd**

(Tudalennau 5 - 7)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Gymdeithas Pysgotwyr Cymru – 11 Tachwedd 2024 (Saesneg yn unig)

**2.4 Hysbysebu ffermio adfywiol**

(Tudalennau 8 - 9)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at y Cadeirydd oddi wrth yr Awdurdod Safonau Hysbysebu – 12 Tachwedd 2024 (Saesneg yn unig)

**2.5 Cysylltiadau rhyngseneddol**

(Tudalen 10)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Tŷ'r Cyffredin – 15 Tachwedd 2024

**2.6 Deiseb P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

(Tudalen 11)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – 15 Tachwedd 2024

## 3 Dyfodol Dur yng Nghymru

(10:00–11:00) (Tudalennau 12 - 34)

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU

Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru

Áine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Trawsnewid Diwydiannol ac Economi Sylfaenol, Llywodraeth Cymru

Kate Hearnden, Pennaeth Datgarboneiddio Diwydiant, Ynni a Dur, Llywodraeth Cymru

Emma Edworthy, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflogadwyedd, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

## Egwyl

(11:00–11:05)

## 4 Craffu blynyddol ar Fanc Datblygu Cymru

(11:05–12:05) (Tudalennau 35 - 50)

Sally Bridgeland, Cadeirydd, Banc Datblygu Cymru

Giles Thorley, Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru

David Staziker, Prif Swyddog Cyllid, Banc Datblygu Cymru

Rhian Elston, Cyfarwyddwr Buddsoddi Cymru, Banc Datblygu Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Llythyr at y Cadeirydd oddi wrth Fanc Datblygu Cymru - 29 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12:05)

## 6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(12:05-12:15)

## 7 Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd - trafod yr adroddiad drafft

(12:15-12:20) (Tudalennau 51 - 52)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb drafft y Pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau i’r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Ein cyf: RE/324/2024

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

11 Tachwedd 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr, ynddo gwnaethoch ofyn am:

1) ddiweddariad ar y cynllun cofrestru gwirfoddol;
2) diweddariad ar beilot ehangach Dwyfor gan gynnwys unrhyw ganlyniadau, neu gynnydd gyda'r gwerthusiad annibynnol; ac
3) a oes unrhyw ddata mwy diweddar ar gael o dan y proffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol ac a fydd y gyfres yn cael ei diweddaru.

Rwy'n falch o roi'r wybodaeth isod.

**1) Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun cofrestru gwirfoddol**

Cyhoeddais i ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ddatganiad ysgrifenedig ar 12 Tachwedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gofrestru a rheoleiddio llety ymwelwyr.

Byddwn yn parhau i drafod gyda rhanddeiliaid twristiaeth wrth i ni barhau i fwrw ymlaen â'n cynigion.

**2) Yr wybodaeth ddiweddaraf am beilot ehangach Dwyfor, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau o'r gwerthusiad annibynnol neu gynnydd gyda'r gwerthusiad annibynnol**

Yn ddiweddar, darparodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu gwaith y cynllun peilot ac amlygodd y bydd adroddiad gwerthuso annibynnol interim ar gael maes o law. Bydd yn nodi canfyddiadau cynnar yr ystod o ymyriadau sy'n cael eu treialu yn Nwyfor, gan gynnwys mapio data ac ymchwil archwiliadol. Dechreuodd y cam nesaf - gwerthuso'r broses - ym mis Hydref a bydd yn rhedeg am flwyddyn. Bydd y cyfnodau effaith ac economaidd yn rhedeg o fis Hydref 2025 i fis Hydref 2026, a rhagwelir adroddiad gwerthuso terfynol ym mis Rhagfyr 2026.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran cynnydd gydag argymhelliad 4 ar ymchwil ar effaith twristiaeth ar gynaliadwyedd cymunedau, cynhaliwyd arolygon peilot mewn tri awdurdod lleol i brofi dichonoldeb casglu barn trigolion ar dwristiaeth. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ddechrau mis Rhagfyr.

**3) Proffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol**

Mae'r proffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol yn crynhoi ystadegau twristiaeth allweddol ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'r proffiliau diweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod 2017 i 2019.

Mae'r proffiliau yn defnyddio amcangyfrifon cyfartalog tair blynedd (ee, 2017 i 2019), yn hytrach nag amcangyfrifon blynyddol. Mae hyn oherwydd bod meintiau sylfaenol ar gyfer rhanbarthau ac awdurdodau lleol yn aml yn rhy isel i gynhyrchu amcangyfrifon cadarn ar lefel flynyddol, tra bod amcangyfrifon cyfartalog tair blynedd yn fwy cadarn.

Oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data ar y lefelau rhanbarthol a lleol, ni chafwyd cyhoeddiadau pellach yn y gyfres hon. Rydym yn parhau i fonitro'r data wrth i waith maes barhau a byddwn yn darparu amcangyfrifon ar lefel ranbarthol a lleol cyn gynted ag y gallwn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: HIDCC/PO/0314/24

Paul Davies AS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru, Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

11 Tachwedd 2024

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr ar 9 Awst a hoffwn ymddiheuro yn ddiffuant am yr oedi cyn ymateb.

Ymatebais yn ddiweddar i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a all ddarparu diweddariad mwy cynhwysfawr ond meddyliais ei bod yn briodol ymateb i'r adborth a gawsoch yn y Sioe Fawr ynghylch Gweithgorau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a'r Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon.

Fe wnaethon ni sefydlu tri Gweithgor Rhanddeiliaid i'n helpu i ddatblygu'r SFS, yn ymdrin â thenantiaethau, tir comin a sut i gynnwys ffermwyr newydd ac ifanc yn y Cynllun yn y dyfodol.

Pwrpas y gweithgorau oedd helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i roi sylw i'r ystyriaethau pwysig hyn wrth ddylunio Cynllun. Roedd cyfraniad y gweithgorau hyn yn bwysig at lunio'r ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Cadw ffermwyr yn ffermio a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023.

Mae tenantiaethau, tir comin a newydd-ddyfodiaid yn dal i fod yn rhannau pwysig o'r SFS ac chawsant eu hystyried gan y Ford Gron Weinidogol a Grwpiau Swyddogion. Mae'r holl randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb yn y meysydd hyn yn aelodau o'r grwpiau hyn. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r gweithgorau am eu gwaith ac i'r rhanddeiliaid am eu hymrwymiad cadarnhaol yn y trafodaethau presennol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pennir gwaith y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon yn ei Gylch Gorchwyl. Y Ford Gron Weinidogol oedd yn gyfrifol am ei ddatblygu ac am gytuno arno. Aelodau’r Panel sydd bellach yn arwain y gwaith a Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth a'r mecanwaith cymorth. Mae gwaith y Panel wedi mynd rhagddo'n dda, ond mae'r amserlen yn dynn gan fod angen i'r gwaith gadw o fewn y llinell amser ehangach ar gyfer dylunio'r cynllun. Fel ymateb i hynny, cefais hyd i amser ychwanegol i'r Panel allu adolygu'r dystiolaeth, a diweddarwyd y Cylch Gwaith.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau yn y Cylch Gwaith heblaw bod angen cadw o fewn cwmpas Gweithredoedd ychwanegol neu newydd sydd â photensial i ddal a storio carbon fel rhan o'r SFS. Nid wy'n gwybod am unrhyw bryderon ynghylch pa arbenigwyr y cysylltwyd a hwy i helpu'r Panel gyda'i adolygiad.

Rwy'n dal i fod yn argyhoeddedig bod angen gweithio mewn partneriaeth fel hyn i helpu i gwblhau dylunio'r SFS er mwyn iddo allu dechrau yn 2026.  Rwy'n hynod ddiolchgar am ymdrechion pawb i gadw at yr amserlen anodd hon, hynny ar ben eu hymrwymiadau busnes a phersonol.

Byddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau’r Pwyllgor ar hynt y gwaith wrth i’r cam hwn ddirwyn i ben.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Welsh Fisherman's Association

Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

The national voice of Welsh fishermen
www.wfa-cpc.wales

---

**Paul Davies MS:** **November 2024**
**Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee:**

Dear Mr Davies,

**<u>Consultation on Amendments to Annex A of the Join Fisheries Statement:</u>**

Thank you for your kind invitation and interest in the views of the Welsh Fishermen's Association – Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA-CPC) in relation to the proposed changes/amendments to Annex A of the Joint Fisheries Statement (JFS).

The Joint Fisheries Policy Authorities (FPA's) consultation questions are noted below with our corresponding answers for consideration within the Economy Trade & Rural Affairs Committee scrutiny process. We have also included supplementary background information regarding the potential implications which, by default, will result in the event that FPA's fail to resource and fund priority science and evidence gaps, for FMP's listed in Annex A within the JFS legally binding deadlines.

**Q2:** Do you agree with the proposed new publication deadlines for the FMP's set out in Table 1 of the Consultation document?

- We do not disagree with the proposed change to the preparation and publication deadline of the 'Whelks in Welsh Waters' FMP within Annex A from 2022-2027 to 2022-2028. We are disappointed that a delay is considered necessary. However, in our considered opinion, we are confident that the measures introduced via the Whelk Fishing (Wales) Order 2019 together with the subsequent Whelk Fishing Permit Legislation introduced in 2022 will make a significant contribution to the FMP deadline to publish. For the avoidance of any confusion / misinterpretation we would recommend changing the title (Annex A) of 'The Whelks in Welsh Waters FMP' to 'Whelks in the Welsh Zone FMP' reflecting the extent to which the current 'Whelk Fishing Order (Wales) 2019' applies:

**Q3:** Do you agree with the proposal to make the technical and other changes to planned FMP' as set out in Table 2 of the Consultation document?

- Answer – Yes: With the exception of the typographical correction to Northern Shelf Mackerel, Northern Shelf Blue Whiting and Norther Shelf Hake; all other proposed amendments, technical or otherwise remain out-with the Welsh zone and the jurisdiction of the relevant authority/FPA. Where Welsh non-sector fishing interests extend beyond the Welsh Zone the WFA-CPC will continue to represent the views and interests of Welsh fishing businesses, pre and post publication where required.

**Q4:** Do you agree with the proposal to create a new Northern Ireland Periwinkle FMP as set out in Table 3 of the Consultation document?

- Answer – No opinion:

**Q5:** Do you agree with the proposal that Welsh Ministers should only remain as an authority responsible for the preparation and publication of those FMP's that extend to the Welsh Zone?

- Answer – Yes:

  Given the legal and binding requirements set out in the Fisheries Act 2020 Section 6 duty to comply with proposals in the JFS Sub-section 7 *"the relevant authority or authorities* in *relation to a Fisheries Management Plan, means the Fisheries Policy Authority (FPA) by whom the JFS specifies the plan is to be prepared and published*". We agree with the proposed changes to authorities responsible for the preparation and publication of FMP's as they relate to Welsh Ministers and the Welsh zone which, in our considered opinion, are both sensible and necessary amendments to the Annex A list:

  <u>Supplementary: FMP's duty to comply with Proposals in the JFS – Science and Evidence:</u>

  Whilst we understand the purpose of this consultation, we are concerned that the FPA's framing of the exercise is restricted to seeking views only on matters in this consultation as they relate to Annex A of the JFS.

  We would argue that the duty to prepare and publish FMP's by the relevant authority or authorities also includes the proposals in the JFS to achieve or contribute to achieving the Fisheries Act objectives as they relate directly to the stocks, fishing area and timetable published within Annex A which gives rise to a fundamental concern with respect to funding the known evidence gaps in data limited stocks and data deficient non-quota socks of fish and shellfish in accordance with the science and evidence objectives (JFS Section 2,3, 4.2.2 and 5.2.4) and the Fisheries act 2020, Section 6, Sub-section (3) (B) (ii):

  *"FMP's must: - Specify the steps (if any) that the relevant authority or authorities propose to take to obtain the scientific evidence necessary to enable an assessment of the stocks Maximum Sustainable Yield (MSY) to be made*".

  Accordingly, each FPA must include within the FMP an evidence strategy and an evidence plan in order to meet the legal requirements as prescribed under Section 6 of the Act. If insufficient evidence is available to make an assessment of the stocks MSY (or equivalent proxy) the relevant FPA's must act in accordance with Sub-section (4) in determining policies specified under Sub-section (3) (B) (i) – "The relevant Authority must adopt the precautionary approach to fisheries management" (Section 1: Sub-section (10) (B)).

  Whilst we acknowledge and support that the prime focus of all FMP's will be achieving the long-term, sustainable harvesting of our stocks, we are nonetheless, acutely aware of and concerned by the scale of evidence required to determine the MSY or suitable proxy of Non-quota species within the legally binding deadlines as set out within Annex A and as agreed by the National Fisheries Authorities (NFA's) under the Joint Fisheries Statement.

  The combination of the significant evidence gaps for non-quota species and time bound legal deadlines presents a very clear cliff-edge whereby, if a stock or stocks MSY cannot be evidenced the relevant authority or authorities will accordingly have to apply a precautionary approach.

  To avoid the 'cliff-edge' the evidence gaps will need to be filled urgently, however, despite the duties required of NFA's throughout the legislation as relates to the science and evidence requirements

and objectives together with the evidence strategies and plans as required for each FMP by the FPA's there is no mention of how the evidence and scientific advice required will be resourced or funded. This is a particular concern for fishermen and women in Wales for whom a potential 'cliff-edge' will be devastating as our small-scale, low impact Welsh registered fishing fleet are almost entirely reliant/dependent on non-quota species such as: - crab, lobster, whelk, scallops and bass inter alia, which, in the absence of an MSY/Proxy will, by default, and for reasons not of their making, be subject to precautionary measures.
Conversely, the science and data requirements for pressure/quota stocks have been and continue to be funded by the UK Government under the Statutory Data Collection Framework which continues to be the case under retained EU law procuring and providing the evidence necessary to inform the annual International Council for the Exploration of the Sea (ICES) scientific catch advice.
This long-standing precedent must surely apply to the now 'time critical' science and evidence requirements for NQS.

Whilst we would not expect the legislation to detail the necessary funding requirements specifically, we do expect such detail to be prioritised, agreed and committed to each FMP with the appropriate resources and funding provided to each FPA in order to achieve or contribute to achieving the fisheries objectives whilst supporting a vibrant and prosperous seafood sector and thriving coastal communities.

We respectfully urge the Economy Trade & Rural Affairs Committee within the scrutiny process set out in schedule 1 of the Fisheries Act to examine the detail and substance of our submission to this inquiry and would be grateful for any amplification you may consider appropriate subject to your deliberations in accordance with the provisions under Section 3 Sub-section (2) (A) (B) of the Act.

Thank you for your invitation to contribute to this important inquiry, I hope our submission is helpful to the work of the Committee. If you require any further information during the scrutiny period, please do not hesitate to contact me.

With thanks and kind regards
Jim Evans
For and on behalf of the
Welsh Fishermen's Association – Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA-CPC)

# Eitem 2.4

12 November 2024
**By email**

Dear Mr Davies MS

I am writing on behalf of the Advertising Standards Authority (ASA) to bring to your attention new guidance published on 7 November 2024, on advertising regenerative farming initiatives responsibly, a topic we believe may be of interest to you given your role on the Economy, Trade, and Rural Affairs Committee.

The ASA is the UK's independent regulator of advertising by legitimate businesses across all media. We work closely with politicians as well as the ad industry, consumer groups and civil society organisations to make sure that people and responsible businesses are protected from irresponsible advertising. As the ad regulator, we want to provide the tools businesses need to get their messages out while avoiding getting it wrong, so we regularly publish guidance on a range of topics to provide them with the most up to date, relevant advice.

We have seen increased interest and discussion around "regenerative farming." While not yet a common feature in mainstream advertising, this concept is gaining traction as a solution to pressing environmental issues, particularly within the agricultural sector. However, as it currently lacks a legal or universally accepted definition, and because average consumer understanding and awareness of the term remains relatively low, "regenerative farming" could be used variably, potentially leading to misrepresentation from advertisers and misunderstanding among consumers

Our recent guidance outlines best practices for companies promoting their regenerative farming initiatives, with the aim of fostering transparency and preventing misleading claims. Our key recommendations include:

1. Transparency in communication: advertisers are encouraged to clarify their use of regenerative farming terminology and any associated metrics.

2. Avoiding overgeneralisation and cherry-picking: advertisers should avoid suggesting that minimal or token regenerative practices reflect a full regenerative approach.

Legal, decent, honest and truthful

**Chair** The Rt Hon the Baroness Morgan of Cotes **Chief Executive** Guy Parker
**ASA Council (Broadcast)** Matt Barwell, Murphy Cobbing, Elizabeth Gordon, Alison Hastings, Claire Hilton, Mark Howe, Rotha Johnston, Richard Lloyd, Kirsten Miller, Rebecca Rumbul, Krystle Sargent and Monisha Shah



The Advertising Standards Authority (Broadcast) Limited, registered in England No 05130991, Castle House, 37-45 Paul Street, London EC2A 4LS

3. Avoiding absolute claims: terms like “regenerative,” “sustainable,” or “nature-friendly” must be supported by robust evidence.

4. Differentiating from other farming methods: regenerative farming practices may intersect with but are distinct from organic farming, so advertisers should avoid blurring these differences in ways that could mislead consumers.

5. Considering broader environmental and animal welfare claims: claims around environmental or welfare benefits should not be exaggerated.

As the discourse around sustainable farming grows, there is a heightened importance that claims made about regenerative farming are easily and readily understood by business and consumers alike and that they don’t mislead. This guidance represents an effort to promote truthfulness and clarity in advertising as the agricultural sector navigates these emerging practices.

Should you have any questions or need further information on this, or any other advertising-related topic, we would be pleased to assist. We’ve recently launched a webpage specifically for policy makers, which provides briefings on key areas of our work, as well as details on how to get in contact with our Public Affairs team.

Thank you for your attention to this important matter.

Yours sincerely,

Grace Curley, Public Affairs Adviser

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gw. Anrh. Mr Alistair Carmichael AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Tŷ'r Cyffredin

15 Tachwedd 2024

Annwyl Alistair,

**Ymgysylltu rhyngseneddol**

Diolch am eich llythyr a llongyfarchiadau ar gael eich ethol yn Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin. Byddwn yn falch o fod yn bresennol mewn cyfarfod gyda chi a'n cydweithwyr o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i edrych ar ein diddordebau cyffredin a'r ffyrdd y gall ein Pwyllgorau weithio gyda'i gilydd.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

15 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

Diolch am roi diweddariad ar y Ddeiseb. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig hefyd yn cadw llygad ar ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes. Unwaith y bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn cyhoeddi ei adroddiad, bydd y Pwyllgor yn ystyried ei gamau nesaf. Gallai hyn gynnwys cynnal ymchwiliad os yw'n briodol.

Hoffwn hefyd estyn diolch i'r deisebydd a'r gohebwyr eraill am ymgysylltu â'r Senedd ar y mater hwn.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

# Dyfodol Dur Cymru

20/11/2024

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Dur yng Nghymru ........ 3
3. Tata Steel UK (TSUK) ........ 3
4. Cymorth Llywodraeth Cymru ........ 4
5. Cymorth Lles ac Iechyd Meddwl ........ 5
6. Cyfleoedd a heriau ........ 5
7. Strategaeth Ddur y Deyrnas Unedig ........ 6
8. Y Gronfa Cyfoeth Cenedlaethol (NWF) ........ 6
9. Prisiau ynni ........ 6
10. Metel sgrap ........ 6
11. Caffael ........ 7

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi rhagor o dystiolaeth ar gyfer ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Ddyfodol Dur Cymru.

# 2. Dur yng Nghymru

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd i'r sector dur yng Nghymru.

Mae Tata Steel UK (TSUK) bellach wedi symud i ffwrdd o gynhyrchu dur drwy ffwrnais chwyth ac maent wrthi'n trawsnewid i wneud dur drwy ffwrnais arc drydan, proses a fydd yn cymryd tair blynedd. Bydd y trawsnewidiad hwn yn darparu buddion amgylcheddol ond yn costio llawer o swyddi yn uniongyrchol, a thrwy gadwyn gyflenwi TSUK.

Cafodd perchenogaeth Sbaenaidd Celsa Steel ei chymryd drosodd gan brif gredydwyr ei gronfa fuddsoddi. Mae'r berchenogaeth newydd yn gweithio ar ailstrwythuro'r busnes ac rydym yn aros i weld pa effaith fydd hyn yn ei gael ar safle Celsa Caerdydd, os o gwbl.

Ar hyn o bryd mae Liberty Steel yn bwriadu gwerthu ei gyfleuster yn Nhredegar.

# 3. Tata Steel UK (TSUK)

Mae trafodaethau ynghylch dyfodol TSUK bellach wedi dod i ben a’r bwriad nawr yw i’r Cwmni drawsnewid o gynhyrchu dur drwy ffwrnais chwyth i wneud dur drwy ffwrnais arc drydan.

Mae TSUK wedi sefydlu cynllun diswyddo gwirfoddol, ac mae'n nodi mai hwn yw'r cynllun mwyaf hael y mae'r cwmni erioed wedi'i gynnig. Mae'r Cwmni yn ceisio lleihau diswyddiadau gorfodol, ac mae wedi sefydlu opsiwn lle gall y rhai sydd mewn perygl o ddiswyddo gorfodol ymuno â rhaglen hyfforddi. Bydd hyn am hyd at ddeuddeg mis, ac wedi'i deilwra i unigolion i ennill cymwysterau cydnabyddedig i gefnogi eu hadleoliad i swyddi newydd.

Ynghyd â'n partneriaid Bwrdd Pontio, rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r rhai y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt. Bydd cefnogi'r broses o bontio rhwng colli swydd a chyfleoedd newydd yn bwysig ac mae'r Bwrdd Pontio yn ymwybodol iawn o hynny. Mae cyrsiau eisoes ar y gweill i achredu sgiliau gweithwyr TSUK a'r hyn y maen nhw eisoes wedi'i ddysgu.

Mae mwy na 50 o fusnesau a sefydliadau wedi llofnodi addewidion i warantu cyfweliadau swyddi i'r rhai y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt. Daw cyfleoedd gwaith wrth ailadeiladu safle'r gwaith dur wrth iddynt symud o ffwrnais chwyth i

dechnoleg ffwrnais arc drydan (EAF) yn ogystal ag ar gyfer adeiladu'r EAF newydd.

# 4.Cymorth Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cymorth ar gael drwy ei rhaglenni cyflogadwyedd ac uwchsgilio, ReAct+ a Cymunedau am Waith a Mwy, fydd yn gallu cynnig hyfforddiant a gwasanaethau mentora i weithwyr TSUK a'i gadwyn gyflenwi sydd am aros yn y farchnad lafur.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo oddeutu £25 miliwn ar ReAct a Cymunedau am Waith:

Rhwng 01 Ebrill a 31 Gorffennaf 2024, gweithredwyd cynllun peilot ymyrraeth wedi'i thargedu drwy Gyfrif Dysgu Personol (PLA) gwerth £2 filiwn i ddarparu cefnogaeth gyflym i weithwyr Tata a gweithwyr y gadwyn gyflenwi. Mae data cychwynnol yn dangos bod y cynllun peilot ar gyfer Tata wedi galluogi 716 o weithwyr Tata a'i gadwyn gyflenwi i gymryd rhan mewn 1,005 o raglenni ailsgilio neu uwchsgilio. Mae dysgwyr wedi ymgymryd â chyfleoedd dysgu mewn logisteg, adeiladu, peirianneg, digidol a rheoli prosiectau.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25, bydd ymyrraeth wedi'i thargedu gan PLA Tata yn parhau fel rhan o'r cyllid darparu prif ffrwd ran-amser ehangach ac ers 01 Awst 2024 mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu Cyfrifon Dysgu Personol wedi symud i Medr.

Gan weithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT), mae Busnes Cymru yn chwarae rhan allweddol o gefnogi'r gwaith o ddarparu Cronfa Hyblyg y Gadwyn Gyflenwi a ariennir gan y Bwrdd Pontio, drwy ddarparu cynghorwyr ac arbenigedd pwrpasol i gefnogi cwmnïau cadwyn gyflenwi, a all ymgymryd â chynllun diagnostig a gweithredu manwl gyda chwmnïau cymwys.

Mae Busnes Cymru hefyd yn helpu'r bobl hynny fydd yn colli eu swyddi fydd am ystyried hunangyflogaeth neu ddechrau eu busnes eu hunain. Bydd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar sut i ddechrau busnes, yn ogystal â sut i gael hyd i gyllid busnes.  Rydym yn annog pob busnes ac unigolyn yr effeithir arno i gysylltu â llinell gymorth Busnes Cymru.

Mae Banc Datblygu Cymru yn rhoi cymorth gwerthfawr i fusnesau yng Nghymru ar adegau o ansicrwydd economaidd. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i fusnesau o fewn cadwyn gyflenwi TSUK y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt.

# 5. Cymorth Lles ac Iechyd Meddwl

Mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar Fwrdd Pontio Tata yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae diswyddiadau nid yn unig yn ei chael ar y gweithwyr yr effeithir arnynt, ond ar eu teuluoedd, a phwysigrwydd bod cymorth ar gael i ddelio â'r straen a achosir gan y sefyllfaoedd hyn.

Mae'r Bwrdd Pontio wedi cytuno ar bum maes blaenoriaeth ar gyfer cymorth: Paru swyddi, sgiliau a chyflogadwyedd; sefydlu Cronfa Bontio Cadwyn Gyflenwi; Cronfa Tyfu Busnesau a Dechrau Busnesau; cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles; a phrosiectau adfywio.

Mae'r Bwrdd wedi dod â'n holl fecanweithiau cymorth at ei gilydd, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan grwpiau cymunedol i ddarparu dull cyfannol o helpu'r gweithwyr hynny, eu teuluoedd a'r cymunedau ehangach y mae trawsnewidiad arfaethedig Tata yn effeithio arnynt.

Mae tudalen we ar gael ar wefan CNPT Hwb Gwybodaeth Pontio Tata Steel - Cyngor Castell-nedd Port Talbot (npt.gov.uk) sy'n darparu siop-un stop fel un man cyswllt i bawb sy'n chwilio am help a chyngor. Mae'r dudalen we yn cynnwys dolenni cyfeirio ar gyfer unigolion a busnesau at yr holl gymorth sydd ar gael, gan gynnwys cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles drwy Fyrddau Iechyd Lleol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cymryd rhan yn y trefniadau pontio i sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar yr Hwb ar-lein a ddatblygwyd i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i gymorth a'i gyrchu. Mae hyn yn cynnwys cymorth iechyd meddwl hawdd ei gyrchu nad oes angen atgyfeiriad gan weithiwr iechyd proffesiynol - er enghraifft llinell gymorth CALL, Therapi Ymddygiad Gwybyddol ar-lein a 111 pwyso 2 ar gyfer iechyd meddwl.

Mae Grŵp Cysylltiadau Cymunedol a Llesiant wedi'i sefydlu sy'n cyfarfod bob pythefnos er mwyn gallu trafod unrhyw themâu a gweithredu arnynt yn briodol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y galw/angen am gymorth iechyd meddwl.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn gwneud gwaith i ddeall anghenion y dyfodol i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau yn y tymor hwy

Gan weithio gyda'r Bwrdd Pontio, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi a lliniaru'r effaith ar y gweithwyr, y busnesau a'r cymunedau hynny y mae'r trawsnewid yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

# 6. Cyfleoedd a heriau

Mae dur yn parhau i fod yn ddeunydd hanfodol yn fyd-eang, yn y presennol ac ar gyfer y dyfodol. Mae'r sectorau adeiladu, moduro, seilwaith, ac ynni

adnewyddadwy i gyd yn dibynnu ar ddur. Bydd dur wrth wraidd ein trawsnewidiad i sero net, gan helpu i gefnogi datblygiad diwydiannau newydd yn ogystal â chyflenwi ein sylfaen weithgynhyrchu gyfredol.

# 7. Strategaeth Ddur y Deyrnas Unedig

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddatblygu Strategaeth Ddur erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda nhw ar ei datblygiad i sicrhau bod pob cwmni dur yng Nghymru yn cael ei ystyried.

# 8. Y Gronfa Cyfoeth Cenedlaethol (NWF)

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu creu'r gronfa, a'r cyfalafu ychwanegol y bydd Banc Seilwaith y DU yn ei dderbyn. Gall cyllid cyhoeddus ychwanegol weithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad preifat sylweddol mewn ystod eang o sectorau, ym mhob rhanbarth a chenedl, ac fe ddylai wneud hyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi clustnodi £2.5 biliwn ar gyfer dur o fewn yr NWF. Mae'n hanfodol bod cwmnïau dur o Gymru yn elwa o'r gronfa drwy fuddsoddiadau cyfalaf a all sicrhau dyfodol y diwydiant a chreu swyddi ystyrlon.

# 9. Prisiau ynni

Mae prisiau ynni'r DU yn cael eu hystyried yn rhwystr i dwf a chystadleugarwch ar gyfer ein diwydiannau ynni-ddwys fel dur. Nid yw talu taliadau uwch am ynni na'n cystadleuwyr tramor yn caniatáu i'n diwydiant dur gystadlu ar gae chwarae gwastad. Mae cyfrifiadau gan UK Steel yn dangos bod ein sector dur yn talu hyd at £22 fesul megawat awr (MWh) yn fwy yn 2024 am drydan na'i gystadleuwyr yn Ffrainc a'r Almaen. Byddwn yn parhau i drafod cost ynni â Llywodraeth y DU.

# 10. Metel sgrap

Mae metel sgrap yn prysur ddod yn ddeunydd crai strategol. Gyda chwmnïau dur ar draws Ewrop yn symud tuag at wneud dur gwyrddach trwy ffwrneisi sy'n cael eu bwydo gan fetel sgrap yn lle mwyn haearn crai, mae'r galw am sgrap ar gynnydd.

Ar hyn o bryd mae gan Celsa alw am fetel sgrap ar gyfer ei EAF a phan fydd TSUK wedi'i drawsnewid bydd gofyn ganddynt hwy hefyd am fetel sgrap ar gyfer eu EAF nhw. Mae British Steel hefyd yn ystyried symud i EAF a bydd hyn yn alw pellach ar ein sgrap domestig.

Mae Tata wedi dweud y bydd y newid i wneuthuriad dur arc drydan gan ddefnyddio sgrap o'r DU yn lleihau allyriadau carbon diwydiannol y DU 8% (a 90% ym Mhort Talbot), gan osod meincnod mewn cylcholrwydd wrth ymateb i ofynion cwsmeriaid diwydiannol am ddur gwyrdd.

Yn ôl UK Steel, mae gan y DU, yn wahanol i lawer o rannau eraill o Ewrop, ormod o fetel sgrap. Rydym yn cynhyrchu tua 10-11mt o ddur sgrap bob blwyddyn ac yn allforio 80% ohono. Bydd y newid i wneud dur carbon isel yn gofyn am gadw lefelau sylweddol o sgrap dur domestig o ansawdd uchel yn y DU. Yn y tymor hwy, bydd argaeledd sgrap yn gyfyngiad sylweddol.

Ar hyn o bryd mae'r broses o ailgylchu sgrap dur yn cael ei atal gan sgrap diwedd oes o ansawdd isel, a'r ffaith na ellir gwella sgrap i fynd i'r afael â halogiad.

Gyda'i gilydd, bydd angen i lywodraethau a'r diwydiant dur ac ailgylchu metelau nodi ffordd fuddiol i bawb o droi'r hyn sydd bellach yn fusnes allforio yn un sy'n gwasanaethu ein marchnad ddomestig yn bennaf, er mwyn sicrhau bod ased strategol ar gael ar gyfer ein sector dur.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu ein hymgysylltiad â'r diwydiant dur, y gadwyn gyflenwi sgrap a rhanddeiliaid allweddol eraill fel Prifysgol Abertawe i ddeall y rhwystrau i wella'r cyflenwad o sgrap o ansawdd.

# 11.Caffael

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r arferion gorau o ran caffael dur ar gyfer contractau cyhoeddus lle bo'n bosibl.  Mae swyddogion yn ymgymryd â gwaith ar sefyllfa ac aliniad Llywodraeth Cymru â Nodyn Polisi Caffael Llywodraeth y DU, 'PPN 04/23: Caffael Dur yng Nghytundebau'r Llywodraeth'.

Mae Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN), 'Caffael dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru', wedi cael ei gryfhau er mwyn cyd-fynd â Siarter Dur y DU, drwy annog prosiectau yng Nghymru i ddefnyddio dur o ansawdd da o Brydain ac elwa arno lle bynnag y bo'n gyfreithiol gwneud hynny. Ategir y WPPN gan nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r WPPN yn esbonio sut y dylai cyrff sector cyhoeddus Cymru sydd o fewn cwmpas y WPPN gynllunio cyn caffael. Anogir holl gyrff sector cyhoeddus Cymru i ystyried sut a phryd y bydd dur yn cael ei gaffael drwy'r gadwyn gyflenwi.

Bydd Deddf Caffael 2023 yn cefnogi defnyddio dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru trwy asesu tendrau mewn ffordd wahanol, h.y. bydd caffaelwyr yn cael dewis y Tendr Mwyaf Manteisiol yn hytrach na'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd gan gael gwared ar yr amod 'economaidd'. Er bod y gost i bwrs y wlad yn ystyriaeth bwysig, gall codi llai na chyflenwyr dur domestig mewn ffordd annheg arwain at golli swyddi ac effeithiau economaidd a chymdeithasol sylweddol ar y cymunedau yr effeithir arnynt.

Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyfleoedd gael eu cyhoeddi drwy hysbysiadau piblinell. Bydd hyn yn helpu cyflenwyr i ddeall yn well y galw am ddur yn y dyfodol, gan ganiatáu i'r sector dur baratoi ar gyfer anghenion y dyfodol yn well a'u diwallu trwy sicrhau bod y galluoedd cywir yn eu lle. Hefyd, bydd gofyn i gyrff sector cyhoeddus Cymru ystyried eu hopsiynau dylunio a'u goblygiadau o ran y dur fydd ei angen, gan nodi'r cynhyrchion dur penodol a faint ohonynt y bydd eu hangen, a'r potensial i'w cael o fewn y DU. Cynhelir hefyd ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' gyda'r diwydiant i drafod eu gofynion am ddur.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade and Rural Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
*Via email to:* SeneddEconomy@senedd.wales

29th October, 2024

Dear Paul,

Many thanks for taking the time to meet our new Chair, Sally Bridgeland and I recently.

We look forward to presenting to the ETRA committee on the 2023-2024 performance of the Development Bank in due course. In the meantime, and to continue to provide progress on the recommendations contained in the ETRA Committee report on the Development Bank and following our letter of 4th September, I have set out updates on the remaining items where our response was sought.

**Recommendation 3** – The Development Bank has historically commissioned Cardiff Business School, as part of the Economic Intelligence Wales research collaboration, to provide an impact assessment of the Bank's debt and equity investments and to provide estimates of the jobs-based Gross Value-Added ("GVA") supported by the Bank's activity. This analysis has been undertaken by Cardiff Business School and published annually by Economic Intelligence Wales. The most recent assessment, for the 2022-23 year, is included within the Economic Intelligence Wales annual report September 2023 (see pages 35-36).

For the 2023-24 financial year, a different approach has been taken with the aim of capturing the economic impact not only of the Development Bank's debt and equity investments, but also of our property investments. This assessment of the Bank's jobs-based GVA was prepared by our strategy team and was reviewed by Cardiff Business School. The analysis has been included in the Development Bank of Wales' 2023-24 Annual Report and Financial Statements see page 62).

To better highlight the hugely positive impact made in attracting third party investment capital into Wales, we are undertaking a review of our data capturing methodology for private sector leverage and co-investment activity. Our approach to identifying private sector impact is robust but has historically centred around our core business investment activity. In recent years the remit of the Development Bank has expanded to include increased property investment impact and delivery of financial instruments such as MIMS. These are both good examples of where gross development value, in the case of property, and large-scale project finance, in the case of MIMs are key areas where our private investment impact is not currently reported.

**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.

In addition, we are taking learnings from peer organisations such as the British Business Bank who extend their private sector leverage capturing to a specific period pre-investment, as well as for the lifetime that the investment is held (plus 2 additional years). Our current approach is to capture private sector leverage at the point of investment only (or within 2 years if it is an equity transaction). There is clear scope, therefore, for the Bank to further evolve its capturing of private sector impact to get a firmer understanding of its impact on the Welsh economy in a way that is aligned to other organisations. We hope to conclude this work by the end of this calendar year.

**Recommendation 8** – We have provided details of the due diligence process that we conduct, and we are confident both that this is in accordance with regulatory requirements and generally meets or exceeds the processes carried out by other lenders. However, we are also conscious of our responsibility as an impact investor in Wales, so we have developed a bespoke internet search process to be included in all investment decisions. We will provide more details to the committee in due course.

We note that in the Welsh Government response, they proposed to commission a Public Assessment Review on the Bank and would include our due diligence processes in that review.

**Recommendation 11** – As mentioned in the hearing, we conduct a net promoter score ("NPS") assessment with all customers and have a substantial and statistically relevant response each year. Our NPS score for 2023-24 was 91 (up from 85 in the previous year – as quoted in the hearing). This is a very high score and compares favourably with the private sector. By way of comparison, Principality Building Society scores 83.9 , Metro Bank 82, and Lloyds Bank 62.

We have also added a further function into our complaints process to allow customers to email our General Counsel directly. Our General Counsel is a senior solicitor and has absolute freedom to determine how best to handle any complaint or observations the office receives including, inter alia, providing the information to Welsh Government, to the Chair or to independent lawyers.

I should re-iterate that the quantum of complaints is small – 11 out of over 1,760 applications in (date) - but that each is taken extremely seriously and handled in person.

Yours sincerely,



**Giles Thorley**
**Chief Executive**

**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon